Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)
## Gwelliannau Cyfnod 2

Mawrth 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Tanysgrifiwch i ddiweddariadau**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

## Gwelliannau Cyfnod 2

Mawrth 2023

**Awdur:**
Gareth Thomas

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad i'r Bil .......... 1**

**2. Crynodeb o welliannau Cyfnod 2 .......... 2**

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cadeirio, cyfarfodydd a gweithdrefn .......... 2

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cynrychiolwyr gwleidyddol .......... 3

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cynrychiolwyr gweithwyr .......... 3

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: Enwebiadau gan Wales TUC Cymru .......... 4

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: hyd penodiadau .......... 4

Is-grwpiau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol .......... 5

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol .......... 6

Trefniadau adrodd partneriaeth gymdeithasol .......... 6

Caffael cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol .......... 7

Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol .......... 8

Y cod Allanoli a'r gweithlu .......... 9

Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol .......... 9

Strategaethau caffael .......... 9

Adroddiadau blynyddol .......... 10

Cofrestr gontractau .......... 11

Gosod targedau caffael .......................................................................................12

Canllawiau a dod i rym .......................................................................................13

**3. Y camau nesaf .......................................................................................13**

# 1. Cyflwyniad i'r Bil

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS, y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** ("y Bil") ar 7 Mehefin 2022. Mae'r Bil ar hyn o bryd yng **Nghyfnod 3 o broses ddeddfwriaethol y Senedd**.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** i'r Bil yn datgan ei fod yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol wrth bennu eu nodau llesiant a chyflawni'r nodau hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ("Deddf LlCD 2015"). Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill eu staff;
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu nodau llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf LlCD 2015;
- diwygio adran 4 o Ddeddf LlCD 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol 'Cymru ffyniannus';
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gynnal eu gweithgareddau caffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
- rhai cyrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi; a
- gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.

**Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar y newidiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2 o broses ddeddfwriaethol y Senedd**. Mae rhagor o fanylion am yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud – a'r materion allweddol a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 – ar gael yn ein **Crynodeb o'r Bil**.

# 2. Crynodeb o welliannau Cyfnod 2

Dechreuodd ystyriaeth Cyfnod 2 o Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 30 Tachwedd 2022, a daeth i ben ar 23 Ionawr 2023. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ystyried gwelliannau Cyfnod 2 **ar 23 Ionawr 2023**.

Cafodd **115 o ddiwygiadau** eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. O'r rhain, dygwyd 11 ymlaen gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil (Hannah Blythyn AS). Cyflwynwyd mwyafrif (60) y gwelliannau eraill gan Joel James AS, a chyflwynodd Peredur Owen Griffiths AS a Jane Dodds AS 22 o welliannau yr un.

Cafodd y gwelliannau eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn hwyluso'r ddadl. Roedd 17 grŵp: Mae manylion y pwyntiau allweddol o bob grŵp wedi'u nodi isod.

## Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cadeirio, cyfarfodydd a gweithdrefn

Cwmpasodd y grŵp hwn 20 o welliannau, a'r unig welliant y cytunwyd arno oedd gwelliant 1 gan y Dirprwy Weinidog. Mae hynny'n gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i **ymgynghori ag aelodau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol** ("y CPG") **cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau i weithdrefnau'r CPG**. Roedd hwn yn ymateb i argymhelliad 4 yn **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Cyflwynwyd y 19 gwelliant arall yn y grŵp hwn gan Joel James AS**. Cynigiodd y dylai'r Senedd benodi Cadeirydd annibynnol yn hytrach na bod y Prif Weinidog yn cadeirio'r CPG (a Gweinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion os na all Prif Weinidog Cymru wneud hynny). Roedd diwygiadau eraill yn y grŵp hwn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd CPG a threuliau ei aelodau.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, ac ni chytunwyd ar yr un ohonynt**. **Dywedodd**, mewn perthynas â Chadeirydd y CPG:

> Members will know that the function of the social partnership council, as set out in the Bill, is to provide information and advice to the Welsh Ministers on relevant matters. It's entirely appropriate that the First Minister, or another Welsh Minister or Deputy Minister, should chair the council.

At hynny, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n rhy ragnodol ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a'i gwneud yn ofynnol i agendâu cyfarfodydd gael eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodol o bob cyfarfod.

## Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cynrychiolwyr gwleidyddol

**Cyflwynwyd pob un o'r 9 gwelliant yn yr adran hon gan Joel James AS**, a gynigiodd fod pob un o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd yn cael eu cynrychioli ar y CPG, ac mai dim ond unigolyn a enwebwyd gan ei blaid wleidyddol y dylai'r Prif Weinidog ei benodi. Gwnaeth Joel James AS **ddweud** y byddai'r diwygiadau yn arwain at y canlynol:

> ...increase the political representation on the social partnership council, therefore enabling a wider range of voices to be heard. It also helps improve scrutiny of the Welsh Government, because other political parties would have access to the advice that the Welsh Government is receiving.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, ac ni dderbyniwyd yr un ohonynt**. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **nodi** ei rhesymau dros beidio â derbyn y gwelliannau hyn:

> Our vision for the SPC is as a formal channel through which employers and trade unions—specifically employer and worker representatives—are able to engage with Welsh Ministers, to work with us to reach consensus on issues of mutual interest and to provide us with advice to better inform policy development and support implementation.

## Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: cynrychiolwyr gweithwyr

**Cyflwynwyd pob un o'r 7 gwelliant yn yr adran hon gan Joel James AS**, ac roeddynt yn ymwneud â chynrychiolaeth cyflogwyr ar y CPG.

Roedd y gwelliannau hyn yn ceisio cynyddu nifer y cynrychiolwyr cyflogwyr ar y CPG o 9 i 12 i gynnwys cynrychiolwyr o fusnesau bach, canolig a mawr, ac i dynnu sylw at bwysigrwydd byrddau iechyd lleol a llywodraeth leol wrth ystyried cynrychiolwyr cyflogwyr y sector cyhoeddus.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **ymateb** i'r diwygiadau hyn, gan ddatgan mai diben y CPG oedd bod yn deiran, gyda chynrychiolaeth gyfartal gan bartneriaid cymdeithasol. Yn ei hôl hi, byddai'r gwelliannau'n arwain at fwy o gynrychiolwyr cyflogwyr na'r rheini sy'n cynrychioli gweithwyr. At hynny, dywedodd nad oedd hi wedi'i hargyhoeddi ynghylch yr angen i flaenoriaethu byrddau iechyd lleol a llywodraeth leol wrth ystyried cynrychiolwyr cyflogwyr y sector cyhoeddus.

**Gwrthodwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn.**

## Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: Enwebiadau gan Wales TUC Cymru

**Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 3 gwelliant,** a chyflwynwyd 2 ohonynt gan Jane Dodds AS a'r llall gan Peredur Owen Griffiths AS.

Pe bai'r Bil yn cael ei basio, bydd TUC Cymru yn enwebu cynrychiolwyr gweithwyr i'r CPG. Roedd gwelliant Peredur Owen Griffiths AS yn ceisio gosod dyletswydd ar TUC Cymru i ystyried undebau nad ydynt yn gysylltiedig wrth wneud yr enwebiadau hyn. Cyflwynodd Jane Dodds AS welliant i'w gwneud yn ofynnol i TUC Cymru enwebu o leiaf hanner y cynrychiolwyr gweithwyr o undebau nad ydynt yn gysylltiedig. At hynny, cyflwynodd welliant i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw i'r enwebiadau hyn yn hytrach na dim ond gallu penodi unigolion a enwebwyd gan TUC Cymru.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, a chawsant eu tynnu'n ôl neu ni chytunwyd arnynt**. **Nododd fel** a ganlyn:

> I do very much understand and appreciate the concerns that some Members have in regard to this issue and the spirit in which these amendments have been tabled. However, a duty of the type proposed will not be possible, primarily because Wales TUC is a private body. Instead, I have agreed with Wales TUC Cymru that the nominations will include representation from non-affiliated unions.

At hynny, darparodd y Dirprwy Weinidog lythyr i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gan Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru, **oedd yn datgan fel a ganlyn**:

> We welcome the opportunity to clarify that it is the Wales TUC's intention to seek nominees from all trade unions in Wales, not just those affiliated to the TUC…
>
> While we cannot pre-determine who the union side nominations will be and which trade unions they are associated with (as this will be determined by trade unions themselves, as the worker representatives), we would expect non-affiliated trade unions to be included as part of the list of nominees presented to the First Minister.

## Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: hyd penodiadau

**Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 3 gwelliant**, a chyflwynwyd 2 ohonynt gan Joel James AS gyda Peredur Owen Griffiths AS yn cyflwyno'r llall.

Roedd gwelliannau Joel James AS yn cynnig isafswm gofyniad presenoldeb ar gyfer aelodau'r CPG, a bod y Prif Weinidog yn cael ei gyfyngu i ddod â phenodiadau

i ben dim ond pan fydd ymddygiad unigolion yn golygu eu bod yn anaddas i barhau ar y CPG. Roedd gwelliant Peredur Owen Griffiths AS yn ceisio gosod terfyn dau dymor ar gyfer aelodau'r CPG.

**Ni phasiwyd y gwelliannau hyn, ac nid oedd y Dirprwy Weinidog yn eu cefnogi.** **Nododd** fel a ganlyn:

> It's normal practice in public appointments that not all members will stand down at the end of their three-year term. This ensures flexibility and continuity. The Bill does not prevent reappointment of an individual to the SPC or representative serving consecutive terms… I think it's unnecessary to spell out specific reasons on the face of the Bill why an appointment should be terminated. There needs to remain an element of discretion around appointments in order to deal with a range of different circumstances, including ensuring a mix of people with the requisite skills, background and experiences and to maintain corporate knowledge.

## Is-grwpiau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

**Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 5 gwelliant**, a chyflwynwyd 4 ohonynt gan Joel James AS ac 1 gan Peredur Owen Griffiths AS.

Roedd gwelliannau Joel James AS yn ceisio'r canlynol:

- Cynnwys gofynion sy'n ymwneud â setiau sgiliau pobl ar is-grwpiau;
- sicrhau cynrychiolaeth gyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr ar is-grwpiau;
- ei gwneud yn ofynnol bod diwygiadau i aelodaeth a gweithrediad yr is-grwpiau yn cael eu cyflwyno i'r CPG cyn gwneud penderfyniad terfynol; a
- sefydlu is-grŵp o'r CPG i ystyried y rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu myfyrwyr, graddedigion a phobl ddi-waith.

Nod gwelliant Peredur Owen Griffiths AS oedd ei gwneud yn ofynnol i is-grŵp caffael y CPG gael o leiaf un aelod o gyflogwr yn y sector gwirfoddol.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, a chafodd pob un ohonynt eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl.** Cafwyd **sylw ganddi** y byddai'r rhain – yn ei barn hi – yn benderfyniadau i'r CPG eu gwneud, ac ni ddylent gael eu rhagnodi mewn deddfwriaeth. At hynny, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n well ymdrin â'r broses o sefydlu is-grwpiau a'u haelodaeth drwy ganllawiau.

## Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

**Roedd 5 gwelliant yn y grŵp hwn**, a chyflwynwyd 3 ohonynt gan Joel James AS a 2 gan Jane Dodds AS. Roedd y ddau yn welliannau dyblyg na ellid eu cynnig na phleidleisio arnynt.

Mae adran 16 o'r Bil yn cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol. O dan hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus o fewn cwmpas y Bil geisio "consensws neu gyfaddawd" ag undebau llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr staff eraill lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) ar nodau llesiant a phenderfyniadau o natur strategol ar fodloni'r nodau hyn. Nod y diwygiadau a gyflwynwyd gan Joel James AS oedd newid hyn i ofyniad i ymgynghori ag undebau llafur neu gynrychiolwyr staff eraill. At hynny, ceisiau bennu terfyn amser ar gyfer sicrhau consensws cyn y gall corff cyhoeddus fwrw ymlaen hebddo.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **nodi** pam na chefnogodd y gwelliannau, a pham ei bod yn ystyried y dylai'r rhannau hyn o'r Bil fel y'i drafftiwyd aros:

> In contrast to consultation, we have deliberately chosen to use the wording of 'seeking consensus or compromise' to encourage a more meaningful culture of engagement and working with work representatives, involving them in the process of setting well-being objectives. These are steps intended to involve trade unions or staff representatives in the decision-making processes, and their requirements are intended to promote a more consistent and collaborative approach to strategic decision making and connection with the public bodies' well-being duty, one which properly takes account of the views, knowledge and experiences of the workforce.

**Ni phasiwyd y gwelliannau yn y grŵp hwn.**

## Trefniadau adrodd partneriaeth gymdeithasol

**Roedd 4 gwelliant yn y grŵp hwn,** a chyflwynwyd pob un ohonynt gan Joel James AS.

Mae gofyniad yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus o dan gwmpas y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol adrodd yn flynyddol ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Byddai'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Joel James AS yn dileu'r gofyniad hwn ar gyfer adrodd blynyddol. Yn hytrach, ni fyddai cyrff cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiadau oni bai eu bod yn cael eu cyfarwyddo gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

**Ni dderbyniwyd unrhyw un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn**. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **nodi ei rhesymau dros beidio â'u cefnogi**:

> The annual reporting arrangements under the Bill provide the SPC with a regular and reliable source of information to better understand whether public bodies are complying with the duty. In my view, these amendments would undermine what we are trying to achieve in terms of a new way of working…

## Caffael cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

**Roedd 23 o welliannau yn y grŵp hwn, a phasiwyd y 3 gwelliant a gyflwynwyd gan y Dirprwy Weinidog.**

Mae gwelliannau'r Dirprwy Weinidog yn aralleirio'r iaith a ddefnyddir yn y Bil, felly mae'r nodau llesiant a restrir yn Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 cyfeirir atynt yn y Bil fel 'nodau llesiant' yn hytrach na 'nodau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol'.

O'r gwelliannau a oedd yn weddill, cyflwynwyd 17 gan Jane Dodds AS, 2 gan Joel James AS ac 1 gan Peredur Owen Griffiths AS. Roedd y gwelliannau gan Jane Dodds AS a Peredur Owen Griffiths AS yn ceisio cynnwys 'cyfrifoldeb byd-eang' yn y rhannau o'r Bil sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Gwnaeth Jane Dodds AS **ddatgan**:

> I propose that we include an amendment that is focused on global responsibility, particularly around the principles of business and human rights. I'm aware that the Welsh Government states that the proposal to ensure public bodies follow the United Nations guiding principles on business and human rights is a reserved matter and therefore cannot be included within this legislation. However, the national action plan for the UK states that devolved administrations may develop their own action plans or strategies in support of this plan and in line with the commitment to implement the UNGPs.

Byddai un o welliannau Joel James AS wedi dileu'r gofyniad i gyrff cyhoeddus sy'n destun y ddyletswydd (a elwir yn awdurdodau contractio) gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol wrth ymgymryd â chaffael rhagnodedig. Ni fyddai'r llall wedi caniatáu i gyrff cyhoeddus gynyddu eu costau prynu yn sylweddol oherwydd bod cynnyrch yn cael ei brynu'n lleol.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog unrhyw un o welliannau'r Aelod yn yr adran hon, ac ni phasiwyd yr un ohonynt.** O ran y gwelliannau ynghylch cyfrifoldeb byd-eang, gwnaeth nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau statudol.

Bydd hyn yn sicrhau nad yw caffael yn cefnogi arfer anghyfreithlon ac anfoesegol dramor.  Mae nifer o sefydliadau anllywodraethol yn y maes hwn wedi cynnig awgrymiadau ymarferol hefyd, er enghraifft secondio staff i gefnogi gwaith.

Mewn perthynas â gwelliannau Joel James AS, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor y byddai dileu'r gofyniad i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion yn gwanhau'r rhan hon o'r Bil. Dywedodd y byddai gwneud y peth iawn yn costio mwy, weithiau felly ni ddylai cyrff cyhoeddus fod yn gwneud penderfyniadau caffael yn seiliedig ar y pris isaf yn unig.

## Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol

**Roedd 10 gwelliant yn y grŵp hwn**, a chyflwynwyd 6 ohonynt gan Joel James AS, a 4 gan Peredur Owen Griffiths AS.

Cynigiodd gwelliannau Peredur Owen Griffiths AS fod y cymal gwaith cyhoeddus cymdeithasol cyflogaeth fodel hefyd yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth i fenywod, pobl croenliw a phobl LGBT+, a bod cymal gwaith cyhoeddus cymdeithasol ar wahân yn cael ei ychwanegu ar gyfer y Gymraeg.

**Dywedodd y Dirprwy Weinidog na fyddai'n cefnogi gwelliannau Peredur Owen Griffiths AS, ond y byddai'n ystyried yr adrannau hyn o'r Bil ymhellach cyn Cyfnod 3.**

Roedd gwelliannau Joel James AS yn ceisio'r canlynol:

- Cynnwys cyfeiriad at 30 diwrnod yn y categori gwella taliadau prydlon ar gyfer y cymalau gwaith cymdeithasol cyhoeddus.
- Diwygio'r categori gwella hyfforddiant fel ei fod yn darllen "hyfforddiant priodol sy'n ceisio uwchsgilio gweithwyr" yn hytrach na "hyfforddiant priodol i weithwyr".
- Dileu nifer o ddarpariaethau yn adran 28 sy'n ymwneud ag isgontractwyr.
- Pennu amserlenni i Weinidogion Cymru gymryd camau ac ymateb i awdurdodau contractio pan fyddant yn cael hysbysiad gan awdurdod nad yw'n bwriadu defnyddio'r cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn**, a **nodi ei barn** y byddai dileu darpariaethau sy'n ymwneud ag isgontractwyr yn gwanhau dyletswyddau rheoli contract y Bil hwn.  Teimlai y byddai'n well nodi amserlenni a gweithdrefnau i Weinidogion Cymru ymateb i hysbysiadau gan awdurdodau contract yn y canllawiau.

**Ni phasiwyd unrhyw welliannau o fewn y grŵp hwn.**

## Y cod Allanoli a'r gweithlu

**Pasiwyd dau welliant y Dirprwy Weinidog yn yr adran hon**. Maent yn diwygio adran 32 o'r Bil, sy'n ymwneud â'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu. Mae hyn yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i "ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol." wrth baratoi neu ddiwygio'r cod.

Cyflwynwyd y gwelliant arall yn yr adran hon gan Joel James AS. Ceisiodd roi'r pŵer i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cod ar gontractau allanol a'r gweithlu, a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cod diwygiedig.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliant hwn**. **Ystyriai** nad oedd yn adlewyrchu rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran cynghori Gweinidogion.

## Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol

**Cyflwynwyd y ddau welliant yn y grŵp hwn gan Joel James AS**. Roeddent yn ceisio dileu geiriad o adran 34 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cymalau gweithlu cymdeithasol cyhoeddus yn cael eu gweithredu mewn is-gontractau.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn ac ni phasiwyd y naill na'r llall**. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **amlygu ei barn**:

> One of the problems that has been identified in the operation of the existing two-tier workforce code is a lack of effective monitoring of the contract conditions during the life of the contract... Removing all but one of these examples of reasonable steps would be to weaken the contract management duties in the Bill.

## Strategaethau caffael

**Roedd 6 gwelliant yn y grŵp hwn**, a chyflwynwyd 4 ohonynt gan Peredur Owen Griffiths AS, 1 gan Joel James AS ac 1 gan Jane Dodds AS.

Amlinellodd Peredur Owen Griffiths AS ei gynigion i gynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn strategaethau caffael lleol ynghylch y canlynol:

- Y camau y bydd awdurdodau contractio yn eu cymryd i "annog a hwyluso gwaith caffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr lleol a chenedlaethol yng Nghymru."

- Uchelgeisiau'r awdurdod contractio i gynyddu canran y gwariant caffael sy'n cael ei wario gyda chyflenwyr lleol a Chymreig, a'r gwerth a ychwanegir i'r economïau lleol a Chymreig drwy weithgareddau caffael.

At hynny, cyflwynodd welliannau i wneud y canlynol yn ofynnol i awdurdodau contractio:

- Aros hyd nes eu bod wedi cyhoeddi eu hadroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol cyntaf i gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn adran 38(2) o'r Bil; ac
- adolygu eu strategaeth gaffael ar ôl cyhoeddi eu hadroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol cyntaf.

Gwelliant Jane Dodds AS oedd i gynnwys gwybodaeth yn y strategaeth gaffael ar y canlynol:

- Sut mae'r awdurdod contractio wedi ystyried effaith carbon penderfyniadau caffael yn erbyn targedau sero net; a
- sut y mae wedi rhoi sylw dyledus i gaffael sy'n gyfrifol yn fyd-eang, masnach deg a hawliau dynol (gan gynnwys rhywedd) a hawliau amgylcheddol.

Gwelliant Joel James AS oedd i ddileu'r rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio i adolygu eu strategaethau caffael bob blwyddyn, ac yn lle hynny mynnu hyn "o bryd i'w gilydd".

**Gwrthododd y Dirprwy Weinidog bob un o'r gwelliannau hyn, ac ni chawsant eu derbyn**. **Eglurodd ei rhesymau** dros hynny gan nodi – er y bydd angen adolygu strategaethau caffael yn flynyddol i sicrhau eich bod yn gyfredol – efallai na fydd angen eu diweddaru. At hynny, **datganodd** y Dirprwy Weinidog nad oes diffiniad i'r diwygiadau ynghylch cyflenwyr lleol a chenedlaethol, a:

> …this phrase is likely to bring the Bill into conflict with our obligations within international trade agreements, such as the World Trade Organization's Government procurement agreement.

## Adroddiadau blynyddol

**Roedd 2 welliant o fewn y grŵp hwn**, 1 gan y Gweinidog ac 1 gan Peredur Owen Griffiths AS.

Pasiwyd gwelliant y Gweinidog. Mae'n nodi enghreifftiau o wybodaeth y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol (a elwir yn 'awdurdodau contractio' yn y Bil) ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol ar gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth er mwyn:

- Galluogi Gweinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae corff contractio sy'n cyflawni ei amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i asesu sut mae caffael cyhoeddus yr awdurdod contractio yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant (e.e. bod o fudd i economi ei ardal, er enghraifft drwy ddyfarnu contractau i fusnesau bach a chanolig, gan ystyried ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol eraill).

**Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i ailedrych ar ei gwelliant yng Nghyfnod 3, er mwyn ystyried y gwelliant a gyflwynwyd gan Peredur Owen Griffiths AS.** Byddai'r gwelliant hwn wedi'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau caffael blynyddol gynnwys y canlynol:

- Crynodeb o ganran y contractau a ddyfarnwyd i Fusnesau Bach a Chanolig a sefydliadau gwirfoddol;
- cyfrif o gyfran y gwariant caffael a wariwyd gyda chyflenwyr lleol a chenedlaethol yng Nghymru;
- adolygiad o'r graddau y mae caffael wedi cyfrannu at y nodau llesiant; a hefyd
- cyfrif blynyddol o'r gwerth a ychwanegir at yr economi leol ac economi Cymru o ganlyniad i weithgareddau caffael yn seiliedig ar ddata gwiriadwy.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog welliant Peredur Owen Griffiths AS, ac ni chafodd ei basio.** **Nododd fel** a ganlyn:

> Instead of placing these information requirements in regulations, as part of subsection 2(e), amendment 83 places these obligations within the requirements of the annual report. My view is that setting these requirements within regulations allows them to be amended more easily and enables a proportionate approach to be taken… The subsection of amendment 83, which refers to local and national suppliers, is also problematic for the reasons that we discussed earlier.

## Cofrestr gontractau

**Roedd 6 gwelliant yn y grŵp hwn**, 4 ohonynt gan Peredur Owen Griffiths AS a 2 gan y Dirprwy Weinidog.

**Cafodd y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Dirprwy Weinidog eu pasio**. Maent yn diwygio adran 40 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gofrestr contractau awdurdodau contractio gynnwys gwybodaeth am gyfeiriad prif le busnes y contractwr, ond yn caniatáu i awdurdodau atal cyfeiriadau preswyl rhag eu cyhoeddi. Roedd hwn yn ymateb i argymhelliad 16 yn **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddai gwelliannau Peredur Owen Griffiths AS wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio lunio cofrestr i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y sector a gweithgareddau'r contractwr, ac am leoliad eu swyddfeydd a faint o staff y maent yn eu cyflogi yng Nghymru. At hynny, byddent wedi rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gategorïau ychwanegol o wybodaeth gael eu cynnwys ar y gofrestr. Yn ogystal â'r gallu i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys "unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol i hwyluso'r gwaith monitro a chasglu data sydd ei hangen ar gyfer gosod targedau caffael" ar gofrestrau.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, ac ni chawsant eu pasio**. Gwnaeth **nodi** y byddent yn awgrymu y byddai'r adroddiad blynyddol a'r rheoliadau yn lle gwell i fynd i'r afael â'r feddylfryd y tu ôl i'r gwelliannau hynny.

## Gosod targedau caffael

**Gosododd Peredur Owen Griffiths AS 5 gwelliant** a drafodwyd yn y grŵp hwn. Byddai'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod o leiaf un targed i gynyddu'r gwerth ychwanegol i economi Cymru drwy gaffael yn y sector cyhoeddus, yn ogystal ag amlinellu'r broses y dylid ei defnyddio i osod targedau. At hynny, byddent yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau.

Wrth eu cyflwyno, dywedodd y byddai'r prif welliant yn gweithredu argymhelliad 15 **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. **Dywedodd hefyd**:

> Having worked in industry and in the third sector, everyone sets targets because they want to know where they're going, and that's the whole point of setting a target: to give direction, to give an idea of what our ambition is.

**Ni chefnogodd y Dirprwy Weinidog y gwelliannau hyn, ac ni chawsant eu pasio**. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog **rhoi ei rhesymau** dros beidio â chefnogi'r gwelliannau, gan nodi fel a ganlyn:

> We have held numerous discussions on the best mechanisms for achieving what I believe is a shared ambition. The discussions have also made clear the Government's view that setting targets through legislation is probably not the most fitting, nor possibly effective, way to drive improvement.
>
> Focusing on national metrics and setting targets against these would be unhelpful when each contracting authority has its unique circumstances in terms of its location and remit within Wales, and the types of procurement it undertakes.

### Canllawiau a dod i rym

**Cyflwynwyd y ddau welliant yn y grŵp hwn gan y Dirprwy Weinidog, ac fe'u pasiwyd.**

Mae un gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol" mewn perthynas â chanllawiau ar gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae'r llall yn egluro bod adran 48 o'r Bil – sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddod â'r ddeddfwriaeth i rym – yn dod i rym "drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol".

## 3. Y camau nesaf

Dechreuodd y Bil Gyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol ar 13 Mai 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Dirprwy Weinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r **Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2**. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd **ar dudalen y Bil** ar wefan y Senedd.

Bydd y Senedd yn ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn **ddydd Mawrth 7 Mawrth 2022**.